

PAPUR AR Y DIRWEDD ETHOLIADOL AR GYFER ETHOLIADAU MIS MAI 2016

Drafft Hydref 2015

Cyflwyniad

1. Pwrpas y papur drafft hwn yw rhoi'r cyd-destun etholiadol cyffredinol ar gyfer etholiadau fis Mai 2016.
2. Pwrpas y drafft hwn yw rhoi gwybodaeth i Fwrdd Safonau Golygyddol Gweithrediaeth y BBC a Phwyllgor Safonau Golygyddol (PSG) Ymddiriedolaeth y BBC, cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Canllawiau drafft ar gyfer Etholiadau 2016. Ar ôl yr ymgynghoriad, bydd papur diwygiedig yn cynorthwyo'r PSG cyn iddynt gymeradwyo'r canllawiau a phennu unrhyw apeliadau, yng nghyswllt un ai dyrannu Darllediadau Etholiadol y Pleidiau (DEPau) neu sylw golygyddol perthnasol; bydd hefyd yn cynorthwyo'r Weithrediaeth i bennu dyraniad DEPau ar sail y meini prawf dyrannu DEP.
 - Mae'r arlliw glas yn dynodi testun y gallai fod angen ei addasu yn ôl digwyddiadau (NI).
3. Mae'r papur hwn yn rhoi manylion cefnogaeth berthnasol etholwyr i bleidiau yn y gorffennol ac yn darparu fframwaith ar gyfer asesu'r gefnogaeth ar hyn o bryd gan etholwyr i bleidiau a ffactorau perthnasol eraill. Bwriad y papur yw cyflwyno'r dystiolaeth berthnasol sy'n ofynnol ar gyfer gwneud y penderfyniadau hyn - nid i wneud argymhellion am y penderfyniadau eu hunain.
4. Bydd y BBC yn parhau i dderbyn unrhyw dystiolaeth berthnasol newydd am y gefnogaeth ar hyn o bryd gan etholwyr (yng nghyswllt dyrannu darllediadau gwleidyddol) tan y diwrnod ar ôl i'r enwebiadau gau.

Y Dirwedd Wleidyddol: Cefndir

5. Er mwyn sicrhau amhleidioldeb priodol, mae'r BBC o'r farn bod etholwyr a phawb sy'n talu ffi'r drwydded yn cael eu gwasanaethu orau drwy roi mwy o sylw yn ystod cyfnod etholiad i'r pleidiau neu'r ymgeiswyr hynny sy'n dangos tystiolaeth glir o gefnogaeth sylweddol gan etholwyr na'r rheini nad ydynt yn dangos hynny.
6. O ran sylw golygyddol, mae hyn yn cael ei ddisgrifio yn y Canllawiau Golygyddol, sy'n dweud:

Bod penderfyniadau yng nghyswllt newyddion adeg etholiad yn cael eu gwneud o fewn fframwaith o ddadlau democrataidd sy'n sicrhau y rhoddir sylw teg i wrando ar sylwadau ac archwilio a herio polisiau pob plaid. Dylai pleidiau llai arwyddocaol hefyd gael rhywfaint o sylw ar y rhwydwaith yn ystod yr ymgyrch.

7. Wrth wneud y penderfyniadau hyn, cefnogaeth etholwyr yn yr etholiad cyfatebol blaenorol ydy'r man cychwyn - e.e. ar gyfer etholiad Senedd yr Alban, lefel y gefnogaeth gan etholwyr a gafwyd yn yr un etholiad yn 2011. Er mwyn ystyried y newidiadau yn lefelau'r gefnogaeth ers y cyfnod hwnnw, rhoddir rhywfaint o bwys hefyd i dystiolaeth o gefnogaeth etholwyr mewn etholiadau olynol gwahanol, gan gynnwys etholiadau Ewropeaidd a lleol, yr Etholiad Cyffredinol ac is-etholiadau perthnasol. Ystyriaeth arall ydy dystiolaeth o dueddiadau cyson a chadarn mewn polau piniwn.
8. Y ffactorau perthnasol eraill ydy'r cyd-destun gwleidyddol cyffredinol, a allai gynnwys pleidiau newydd sydd wedi'u ffurfio, rhaniadau mewn pleidiau a chynghreiriau newydd rhwng pleidiau.
9. Rhoddir ystyriaeth hefyd i nifer yr ymgeiswyr sy'n sefyll ar ran plaid a'r drefn etholiadol sy'n cael ei defnyddio.

Etholiadau 2016

10. Bydd etholiadau yn cael eu cynnal ar draws y DU ddydd Iau 5ed Mai 2016 ar gyfer:

- Senedd yr Alban
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Cynulliad Gogledd Iwerddon
- Awdurdod Llundain Fwyaf
- Llywodraeth leol mewn rhannau o Loegr
- Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd (Lloegr – y tu allan i Lundain – a Chymru)

11. Mae gan bob etholiad ei gefndir gwleidyddol ei hun, ond mae tirwedd wleidyddol ehangach y DU, a allai effeithio ar bleidleiswyr i raddau mwy neu lai, yn cynnwys:

- Dychwelyd i lywodraeth fwyafrifol a goblygiadau eraill canlyniad yr etholiad cyffredinol;
- Y ddadl dros berthynas y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol;
- Y materion sy'n deillio o fewnfudo a cheiswyr lloches;
- Cyflwr economi'r DU.
- Effaith materion cyfansoddiadol yn dilyn canlyniad y refferendwm yn yr Alban.

Cefnogaeth Etholiadol yn y Gorffennol

Etholiadau Datganoledig 2011

12. Yr Alban: Yn etholiad Senedd yr Alban yn 2011, enillodd yr SNP fwyafrif am y tro cyntaf, gyda 69 sedd (47 yn flaenorol) o'r 129 a thua 45% o'r gyfran o'r bleidlais yn adrannau etholaeth a rhestr yr etholiad. Cafodd Llafur 37 sedd (46 yn flaenorol), gydag ychydig dros 30% o'r bleidlais yn yr adran etholaeth a dros 26% yn y rhestri atodol. Y blaid a gollodd fwyaf oedd y Democratiaid Rhyddfrydol, o 16 sedd i 5 sedd, a'r gyfran o'r bleidlais i lawr i 7.9% a 5.2%, yn y drefn honno. Roedd y ffigur olaf, ar gyfer yr adran rhestr, yn llai nag 1% o flaen Plaid Werdd yr Alban, a enillodd ddwy sedd unwaith eto, er bod ei 4.4% ddim ond yn gynydd bach ers 2007, er i bolau piniwn roi ffigurau gwell ar eu cyfer yn gyson yn y cyfnod yn arwain at yr etholiad. Enillodd UKIP lai na 1% o'r bleidlais ranbarthol. Cafodd un sedd restr, yn Lothian, ei hennill eto gan Margo MacDonald, fel aelod annibynnol; mae wedi aros yn wag ers ei marwolaeth yn 2014. Mae tri ASA a etholwyd ar gyfer yr SNP yn 2011 yn eistedd fel aelodau annibynnol bellach; a cholodd yr SNP un is-etholiad etholaeth i Llafur yn 2013. Mae hyn yn golygu bod gan yr SNP 64 sedd ar hyn o bryd (gan eithrio'r Llywydd), sydd, yn dechnegol, yn fwyafrif o 1.
13. Cymru: Yn yr etholiad ar gyfer Cynulliad Cymru yn 2011 gwnaeth Llafur yn well nag yn 2007, gan gynyddu nifer ei seddi o 26 i 30, gyda chyfran o dros 40% o'r bleidlais mewn etholaethau, a oedd yn galluogi'r blaid i ffurfio gweinyddiaeth yn y Cynulliad o 60 sedd heb eu cyn bartneriaid clymblaid, Plaid, a gafodd 11 sedd (15 yn flaenorol) a llai nag 20% o'r bleidlais. Gwnaeth y Ceidwadwyr rywfaint yn well, gan ennill 14 sedd, dwy yn fwy nag yn flaenorol; collodd y Democratiaid Rhyddfrydol un sedd, i lawr o 6 i 5, a cholli dros 4% o'r bleidlais yn yr etholaethau, a 3% yn y rhestri rhanbarthol - i lawr i 8%. Ni enillodd unrhyw blaid arall sedd - enillodd UKIP bedwar a hanner y cant o'r gyfran ac enillodd y Blaid Werdd dri a hanner y cant o'r gyfran yn y bleidlais ranbarthol. Ni fu newid yng nghyfansoddiad y Cynulliad ers 2011.
14. Gogledd Iwerddon: Roedd etholiadau'r Cynulliad yn 2011 yn dilyn patrwm tebyg i Etholiad Cyffredinol 2010 yng Ngogledd Iwerddon - gan sicrhau unwaith eto mai'r DUP a Sinn Fein oedd y ddwy brif blaid. Ond doedd fawr ddim newid yng nghyfran y pleidleisiau dewis-cyntaf rhwng y pleidiau mwy o'i gymharu â'r etholiad blaenorol ar gyfer y Cynulliad yn 2007. Y DUP ddaeth i'r brig gyda 30%, gan ennill dwy sedd arall, yn rhoi cyfanswm iddynt o 38 sedd allan o 108. Enillodd Sinn Fein 29 sedd, sef un yn fwy nag yn flaenorol, gyda bron i 27% o'r bleidlais. Enillodd Plaid Unoliaethwyr Ulster 16 sedd gyda 13% o'r bleidlais, ond gan gollu dwy sedd. Enillodd yr SDLP 14 sedd, dwy yn llai eto, gyda 14% o'r bleidlais. Cynyddodd y Blaid Gynghreiriol ei chyfran o'r bleidlais ddau pwynt canran a hanner, i dros saith a hanner y cant, gan ennill wyth sedd, sef un yn fwy. Enillodd y TUV (gyda dau a hanner y cant o'r gyfran) a'r Blaid Werdd (gydag un y cant o'r gyfran) un sedd yr un. Cafodd y sedd sy'n weddill ei hennill gan David McClarty, unoliaethwr annibynnol a fu farw yn 2014 - cafodd Claire Sugden, ei gynorthwydd yn y senedd, ei chyfethol wedi hyn ac mae hi nawr yn ddeiliad MLA annibynnol. Ers 2011, mae tri o'r MLAs a etholwyd ar gyfer yr UUP wedi newid a bellach yn cynrychioli'r NI21, UKIP ac ail sedd annibynnol.

15. Ym mis Awst 2015, cyhoeddodd yr UUP ei bod yn ymddiswyddo o'r Weithrediaeth ac yn mynd yn "wrthblaid" (ond does dim dynodiad ffurfiol o'r fath).

Awdurdod Llundain Fwyaf 2012.

16. Maer Llundain: gan fynd yn groes i weddill y DU, roedd y gystadleuaeth am Faer Llundain wedi'i rhannu yn gyfan gwbl, bron, rhwng y ddau ymgeisydd a oedd yn cynrychioli'r ddwy blaid fwyaf – y deiliad Ceidwadol, Boris Johnson, a'r Maer blaenorol, Ken Livingstone o'r Blaid Lafur. Cafodd y ddau dros 40% o'r pleidleisiau dewis-cyntaf. Enillodd yr ymgeisydd Ceidwadol ar yr ail rownd o bleidleisiau trosglwyddadwy. Roedd y pum ymgeisydd arall i gyd o dan 5%. Ymgeisydd y Blaid Werdd oedd yn drydydd, gyda 4.5%, ychydig yn fwy na'r Democrat Rhyddfrydol, a welodd ei gyfran o'r bleidlais yn disgyn dros 50% ers 2008. Cafodd ef ychydig yn fwy na'r ymgeisydd annibynnol, Siobhan Benita, a oedd yn bumed, gydag ychydig yn llai na 4% o'r pleidleisiau dewis-cyntaf. Enillodd UKIP a'r BNP 2% ac 1% o'r bleidlais, yn y drefn honno.
17. Cynulliad Llundain: Enillwyd 14 etholaeth Llundain gan ymgeiswyr y Blaid Lafur (8) ac ymgeiswyr y Blaid Geidwadol (6) yn unig. Enillodd y Blaid Lafur fwy na 40% o'r bleidlais yn y rhestr atodol hefyd - cynnydd o fwy na 13 pwynt canran - ac o ganlyniad nhw oedd y blaid fwyaf, gyda 12 o'r cyfanswm o 25 o seddi. Disgynnodd y Blaid Geidwadol o 11 sedd i 9 sedd, sef 32% o gyfran o'r bleidlais (mwy na 10 pwynt canran yn llai na chyfran Boris Johnson a gafodd ei ail-ethol yn Faer ar yr un diwrnod). Arhosodd cyfran y Blaid Werdd o'r bleidlais yn eithaf cyson ar dros 8%, gyda dwy sedd atodol yn cael eu cadw, ond aethant heibio'r Democratiaid Rhyddfrydol, a welodd eu pleidlais yn disgyn o dan 7%, gan golli sedd ynghyd â dau Aelod o'r Cynulliad. Ni enillodd unrhyw blaid arall sedd na 5% o'r bleidlais, gan gynnwys UKIP. Ni fu newid yng nghyfansoddiad y Cynulliad ers 2012.

Etholiadau Lleol Lloegr:

18. Mae'n bwysig cofio mai dim ond dangos darlun rhannol o farn yr holl etholwyr yn Lloegr y mae etholiadau lleol yn Lloegr. Rhaid ystyried hynny wrth ddadansoddi ffigurau ar gyfer y gyfran o'r bleidlais y tro diwethaf y cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r etholiadau hyn, yn 2012. Yn y flwyddyn honno yn ei chyfanrwydd, bu etholiadau mewn dros 120 o awdurdodau, gyda'r Blaid Lafur yn llwyddiannus iawn, gan gynyddu nifer eu cynghorwyr dros 500. Collodd y Ceidwadwyr fwy na 300 o gynghorwyr, gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol yn colli bron i 200. Dyma oedd y flwyddyn cyn i UKIP weld cynnydd mawr mewn llywodraethau lleol – etholwyd saith cynghorydd dros y blaid. Roedd 26 o gynghorwyr y Blaid Werdd yn cynrychioli cynnydd o bump. O ran y gyfran genedlaethol o'r bleidlais – ffigur tybiannol ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd – roedd 38% Llafur yn gynydd o dri phwynt, gyda'r Ceidwadwyr yn disgyn pedwar pwynt i 31%; nid oedd newid yn 16% y Democratiaid Rhyddfrydol.

19. Y prif newid mewn etholiadau lleol olynol yn Lloegr – er nad yn yr un set o seddi – oedd cynnydd UKIP rhwng 2013 a 2015. Roedd cynnydd net y blaid yn ystod y cyfnod hwnnw yn bron i 500 o seddi, sy'n golygu eu bod wedi hen basio'r Blaid Werdd ac mai nhw, nawr, yw pedwaredd blaid llywodraeth leol yn Lloegr. Ar ddiwrnod yr etholiad cyffredinol yn 2015, gwelodd y Ceidwadwyr gynnydd o dros 500 yn eu seddi llywodraeth leol, gyda Llafur yn colli dros 200 a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn colli dros 400.

Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau (Lloegr – y tu allan i Lundain – a Chymru)

20. Wedi i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau ddisodli awdurdodau'r heddlu, cynhaliwyd yr etholiadau cyntaf erioed - gan ddefnyddio system y Bleidlais Atodol - ar 15fed Tachwedd 2012 (y bwriad gwreiddiol oedd eu cynnal ym mis Mai, ar yr un diwrnod â'r etholiadau awdurdodau lleol, ond bu oedi gyda'r ddeddfwriaeth). Roedd y nifer a bleidleisiodd yn is nag erioed o'r blaen – gyda 15% ar gyfartaledd ar draws y 41 o ardaloedd yr heddlu.

21. Yn gyffredinol, ni oedd yr etholiadau yn cael eu hmyladd gydag ymgyrchoedd pleidiau cenedlaethol, ond ar sail fwy lleol. Er bod y Ceidwadwyr a Llafur wedi cystadlu ymhob un o'r 41 o etholiadau, ni wnaeth y pleidiau eraill yr un fath. Roedd gan y Democratiaid Rhyddfrydol ac UKIP ymgeiswyr mewn 24 o ardaloedd. Cystadlodd y Blaid Werdd mewn un ardal, ac ni chystadlodd Plaid Cymru mewn unrhyw ardal. Roedd dros chwarter yr ymgeiswyr yn aelodau annibynnol – ac roeddent yn hynod llwyddiannus. Cafodd 12 o ymgeiswyr annibynnol eu hethol (gan ennill dau o'r pedwar etholiad yng Nghymru), o gymharu ag 16 o Gomisiynwyr Ceidwadol a 13 o Gomisiynwyr Llafur. Ni fu plaid arall yn llwyddiannus.

22. Felly, mae'n rhaid ystyried y gyfran o'r bleidlais i bob plaid yng nghyd-destun y gwahanol strategaethau a fabwysiadwyd gan bob plaid yn genedlaethol. At ei gilydd, enillodd y Blaid Lafur ychydig dros 32% o'r pleidleisiau dewis-cyntaf, o flaen y Blaid Geidwadol a enillodd ychydig yn llai na 28% - er hyn, bu mwy o Gomisiynwyr Ceidwadol na Chomisiynwyr Llafur yn llwyddiannus. Enillodd ymgeiswyr annibynnol oddeutu 23% o'r pleidleisiau dewis-cyntaf – llawer yn fwy na'u perfformiad cyfunol mewn unrhyw etholiad cenedlaethol arall yn y DU yn ddiweddar. Enillodd y Democratiaid Rhyddfrydol ac UKIP, a oedd yn cystadlu mewn llai na 60% o'r etholiadau, tua 7% o'r pleidleisiau dewis-cyntaf yr un. Enillodd y Democratiaid Seisnig, oedd â phum ymgeisydd, ychydig yn fwy na 1% o gyfanswm y gyfran, ond roedd eu cyfartaledd yn yr ardaloedd lle bu eu hymgeiswyr yn sefyll yn fwy nag 8%, gan ddod yn ail yn Ne Swydd Efrog, gydag 16%. Daeth unig ymgeisydd y Blaid Werdd, a oedd yn sefyll yn Cleveland, yn olaf gydag 14%.

23. Un nodwedd o'r etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddau yw bod y blaendal yn uchel iawn – mae'n £5,000, sydd ddeg gwaith yn fwy na'r blaendal ar gyfer etholiad seneddol. Cafodd hyn effaith ar nifer yr ymgeiswyr mewn llawer o ardaloedd: heblaw am Ddyfnaint a Chernyw, oedd â deg, a thair ardal oedd â saith, roedd gan bob un gystadleuaeth arall chwe ymgeisydd neu lai; mewn tair

ardal, roedd yn rhaid i'r etholwyr ddewis rhwng dau ymgeisydd yn unig. O ganlyniad, enillodd bron i bob un ymgeisydd o leiaf 5% o'r bleidlais, felly ni chollwyd llawer o flaendaliadau.

24. Mae dau is-etholiad wedi cael ei gynnal, y ddau yn 2014: cafodd un ei achosi gan farwolaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, a'r llall gan ymddiswyddiad Comisiynydd De Swydd Efrog – cafodd y ddwy swydd eu cadw gan y Blaid Lafur.

25. Gan fod etholiadau'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yn 2016 yn cael eu cynnal ar y diwrnod pleidleisio arferol fis Mai, gellir disgwyl y bydd y niferoedd pleidleisio yn uwch mewn rhai ardaloedd nag yn 2012 – bydd gan oddeutu hanner y rheini a fydd yn gymwys i bleidleisio etholiad awdurdod lleol ar yr un diwrnod.

Etholiadau Ewropeaidd 2014

26. Buddugoliaeth UKIP yn etholiadau Ewrop oedd y tro cyntaf i blaid heblaw'r blaid Lafur neu'r blaid Geidwadol ddod i'r brig mewn etholiad ar draws y DU i gyd ers i'r Rhyddfrydwyr wneud hynny ganrif ynghynt. O fod yn ail yn 2009, cynyddodd eu cyfran o'r bleidlais bron i un ar ddeg pwynt canran, i dros 27%, gan ennill 24 o'r 73 sedd, un ar ddeg sedd o gynnydd. O sylfaen isel yn 2009, cafwyd cynnydd o bron i 10 pwynt canran ym mhleidlais y Blaid Lafur i ennill 20 sedd, saith sedd o gynnydd, gydag ychydig dros chwarter y bleidlais. Roedd y Ceidwadwyr, a gollodd saith sedd, i lawr i 19, ychydig y tu ôl i Lafur. Cafodd cyfran y Democratiaid Rhyddfrydol o'r bleidlais ei haneru'n union, i lawr i lai na 7%, wrth iddynt gollu deg allan o'u un ar ddeg o seddi. Am y tro cyntaf mewn etholiad ar draws y DU, gwnaethant ddisgyn i'r pumed safle, 1% y tu ôl i'r blaid Werdd, a enillodd sedd newydd i gael cyfanswm o dair, er i'w cyfran o'r bleidlais leihau ryw ychydig bach. Colodd y BNP, a oedd wedi ennill seddi am y tro cyntaf yn etholiad Ewrop yn 2009, gyda dros 6% o'r bleidlais, eu dwy sedd a chael dim ond ychydig dros 1% o'r bleidlais.

27. Yn yr Alban, yr SNP ddaeth i'r brig gyda 29% o'r bleidlais, gan gadw ei dau ASE; roedd perfformiad gwell y Blaid Lafur, o 5 pwynt canran, i 26%, hefyd yn golygu eu bod wedi cadw eu dwy sedd. Cadwodd y Ceidwadwyr eu hunig sedd, gan gynyddu eu cyfran ychydig, i 17%. UKIP oedd yr unig blaid â newid mewn seddi - gyda dros 10% o'r bleidlais - gan ennill eu Haelod Seneddol Ewropeaidd (ASE) cyntaf yn yr Alban, ar draul y Democratiaid Rhyddfrydol; a ddisgynnodd i'r chweched safle gyda'u cyfran o 7%, y tu ôl i Blaid Werdd yr Alban gyda'u cyfran o 8%, a oedd yn gynnydd bychan.

28. Ni chafwyd newid yn yr un o'r pedair sedd yng Nghymru gyda Llafur, er i'r blaid weld cynnydd o bron i wyth pwynt canran yn ei chyfran o'r bleidlais, yn llwyddo o drwch blewyn yn unig i ddod i'r brig o flaen UKIP, a welodd eu cyfran yn cynyddu bron ddwywaith cymaint. Cadwodd y Ceidwadwyr a Plaid yr unig ASE Cymreig oedd ganddynt, er i'r ddwy blaid weld gostyngiad o 3-4% yn eu cyfran o'r bleidlais. Unwaith eto, y Democratiaid Rhyddfrydol

ddioddefodd fwyaf, gan sicrhau llai na 4% o'r bleidlais, a dod yn chweched, ychydig y tu ôl i'r Blaid Werdd, a welodd ostyngiad bychan iawn yn eu cyfran.

29. Mae Gogledd Iwerddon yn defnyddio system bleidleisio wahanol yn yr etholiadau Ewropeaidd i weddill y DU, gan ethol tri aelod drwy Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy. Sinn Fein ddaeth i'r brig, gyda dros 25% o'r pleidleisiau dewis-cyntaf; y DUP ddaeth yn ail gyda 21%. Plaid Unoliaethwyr Ulster, gyda 13% o'r bleidlais, enillodd y drydedd sedd, ond dim ond ychydig o flaen yr SDLP ac wedyn y TUV, a enillodd 12% o'r bleidlais. Cafodd y Blaid Gynghreiriol 7% ac UKIP ychydig o dan 4% o'r pleidleisiau dewis-cyntaf.

Etholiad Cyffredinol 2015

30. Ar ôl pum mlynedd o lywodraeth glymblaid rhwng y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol, dychwelwyd i lywodraeth fwyafrifol yn 2015 – sefyllfa na chafodd ei rhagweld gan y cyfryngau na'r gwleidyddion. Bu llawer o drafod ynghylch twf y pleidiau "eraill" a dirywiad pleidiau mwyaf y DU: felly, mae'n werth nodi bod y Ceidwadwyr a Llafur wedi, yn anarferol, cynyddu eu cyfran o'r bleidlais yn 2015 - cyfrannodd colledion y Democratiaid Rhyddfrydol at y dirywiad hwnnw.
31. Er bod cyfran y Ceidwadwyr o bleidlais y DU wedi cynyddu llai nag l pwynt canran, i bron i 37%, enillodd y blaid 331 o'r 650 o seddi Tŷr Cyffredin, o ganlyniad i'r cynnydd net o 24 o seddi. Bu cynnydd uwch yng nghyfradd Llafur o'r bleidlais - un pwynt a hanner yn ychwanegol, i godi uwchben 30% - ond gostyngodd nifer eu Haelodau Seneddol i 232, o ganlyniad i'r golled net o 26 o seddi. Collodd y Democratiaid Rhyddfrydol bron i ddwy ran o dair o'u cyfran o'r bleidlais ers 2010, gan ddisgyn o dan 8% a cholli bron i bum deg AS i gael cyfanswm o 8 yn unig.
32. Serch hynny, yn yr Alban oedd y newidiadau mwyaf, lle roedd y nifer a bleidleisiodd dros 71%, llawer yn uwch na gweddill y DU. Yn 2010, ni fu ennill na cholli o ran seddi'r pleidiau; yn 2015, aeth yr SNP o chwe sedd i bum deg chwe sedd (pob un ond tair o etholaethau'r Alban), enillon nhw union hanner o gyfran cyfanswm y bleidlais a nhw felly, o bell ffordd, yw trydedd plaid Tŷr Cyffredin bellach. Cafodd y Blaid Lafur gwymmp sylweddol, gan fynd o 41 sedd i un AS yn unig, gyda'i chyfran o'r bleidlais yn disgyn o oddeutu 40% yn 2010 i lai na 25% yn 2015. Disgynnodd gyfran y Democratiaid Rhyddfrydol o'r bleidlais i 7.5%, a chollasant bob un ond un o'u 11 sedd yn yr Alban - yn 2005, roedd ganddynt fwy o bleidleisiau na'r SNP. Disgynnodd gyfran y Blaid Geidwadol ryw faint, i ychydig o dan 15%, ond cadwodd y blaid ei hunig AS.
33. Y blaid a ddaeth yn drydydd ar draws y DU – o ran pleidleisiau – oedd UKIP. Wedi iddi gipio dwy sedd mewn is-etholiadau yn ystod y Senedd ddiwethaf, enillodd y blaid gefnogaeth un pleidleisiwr ym mhob wyth – bron i bedwar miliwn o bobl; yn Lloegr, enillodd UKIP dros 14% o'r gyfran. Er hyn, un Aelod Seneddol yn unig oedd ei gwobr, o ganlyniad i'r system Cyntaf i'r Felin. Enillodd UKIP dair gwaith yn fwy o bleidleisiau na'r Blaid Werdd, ond er

hynny dyma oedd canlyniad gorau'r blaid honno mewn etholiad cyffredinol hefyd: roedd ei chyfran yn Lloegr dros 4%, gan ennill bedair gwaith yn fwy o bleidleisiau o'i gymharu â 2010 (roedd y blaid yn cystadlu mewn 238 yn fwy o seddi nag yn 2010, cynnydd o fwy na 70%), ond ni enillodd sedd arall i ychwanegu at ei sedd bresennol.

34. Roedd yr hanes yng Nghymru yn groes i'r Alban. Un sedd oedd colled net Llafur, felly roedden nhw wedi cadw 25 o seddi, gyda bron i 37% o gyfran y bleidlais. Cafodd y Ceidwadwyr gynnydd o dair sedd, gan godi i 11, gyda chynnydd bach yn eu cyfran o'r bleidlais hefyd. Collodd y Democratiaid Rhyddfrydol ddwy sedd yng Nghymru, gan gadw un yn unig; roedd eu cyfran o'r bleidlais, sef 6.5%, hyd yn oed yn llai nag yn Lloegr a'r Alban, a nhw oedd y bumed blaid o bell ffordd. Ni fu newid mawr o ran Plaid Cymru, wrth iddi gadw ei thair sedd, er y cynnydd mewn sylw i'r blaid o ganlyniad i'r dadleuon teledu. Oddeutu 12% oedd ei chyfran o'r bleidlais yng Nghymru unwaith eto. Drwy'r mesur hwnnw, collodd ei statws fel y drydedd blaid fwyaf i UKIP. Roedd cyfran UKIP o 13 a hanner y cant yn golygu ei bod wedi perfformio cystal yng Nghymru ag y gwnaeth yn Lloegr, ond ni enillodd sedd yng Nghymru.
35. Ni chafwyd y fath newidiadau sylweddol mewn cefnogaeth yng Ngogledd Iwerddon, sydd yn dal â'u strwythur pleidiau gwleidyddol ar wahân. Y gyfran a bleidleisiodd yng Ngogledd Iwerddon oedd 58%, oedd llawer yn is nag ym mhob man arall, ac 13 pwynt canran yn llai na'r Alban. Enillodd y DUP un sedd a cholli un, felly 8 AS sydd ganddynt o hyd: ond gyda'u cyfran o'r bleidlais yn codi rhywfaint, i ychydig dros chwarter, nhw unwaith eto oedd y blaid â'r mwyaf o bleidleisiau. Yn 2010 (ynghyd ag etholiad Ewropeaidd 2014) Sinn Fein oedd wedi cipio'r mwyaf o bleidleisiau, ond y tro hwn, disgynnodd eu cyfran i ychydig o dan 25%, gan gollu etholaeth a'u gadael â phedair sedd (mae eu ASau yn parhau i beidio â chymryd eu seddi yn San Steffan). Enillodd Plaid Unoliaethwyr Ulster, oedd heb AS yn Senedd 2010, ddwy sedd, er mai dim ond cynnydd bychan oedd yn eu cyfran o'r bleidlais, sef 16%. Mewn pedair sedd, cytunodd yr UUP a'r DUP i beidio â chystadlu ymgeiswyr yn erbyn ei gilydd. Disgynnodd yr SDLP ddau bwynt canran, i lai na 14%, ond cadwon nhw eu tair sedd; bu cynnydd yng nghyfran y Blaid Gynghreiriol o'r bleidlais i dros wyth a hanner y cant – ond collon nhw eu hunig sedd. Cadwodd yr unig aelod annibynnol, Y Fonesig Sylvia Hermon, ei sedd, ond gyda llai o fwyafrif. Roedd y pleidiau eraill yn bell y tu ôl i'r pum plaid fwyaf, gyda phob un yn ennill llai na 3% o'r gyfran o'r bleidlais ac yn methu ennill unrhyw seddi. Enillodd UKIP, a oedd yn cyflwyno ymgeiswyr am y tro cyntaf, ychydig dros 2.5% ar draws deg etholaeth, gan arbed ei blaendal mewn pedair allan o'r deg; enillodd y TUV bron i 4% yn 2010, ond llai na 2.5%, gan arbed ei blaendal mewn pedair sedd hefyd. Enillodd Plaid Werdd Gogledd Iwerddon 1%, oedd yn gynnydd bach o'i gymharu â 2010, ond roedd hyn yn llai na Cheidwadwyr Gogledd Iwerddon.
36. Ledled y DU, dwy blaid arall yn unig lwyddodd i ennill mwy na 10,000 o bleidleisiau – digon i sicrhau 0.1 o ganran y gyfran. Enillodd Clymblaid yr Undebwyr Llafur a Sosialwyr dros 36,000 o bleidleisiau, gan gyflwyno mwy na

130 o ymgeiswyr, gyda phob un ohonynt yn colli eu blaendal. Enillodd y National Health Action Party, a oedd yn cyflwyno deuddeg ymgeisydd yn unig, 20,000 o bleidleisiau, gan arbed dau flaendal.

37. Diflannodd y BNP oddi ar y map gwleidyddol bron yn llwyr. Yn 2010, enillon nhw gyfran uwch o'r bleidlais na'r Blaid Werdd - y tro hwn, pleidleisiodd ddwywaith yn fwy o bobl am y Monster Raving Loony Party. Collodd Respect y sedd a enillon nhw mewn is-etholiad yn 2012, a disgyn o dan 0.1% o'r bleidlais. Enillodd y Democratiaid Seisnig, oedd â dros 30 o ymgeiswyr, lai o bleidleisiau na Yorkshire First, a oedd yn cystadlu mewn llai na hanner y nifer o etholaethau.

Cefnogaeth Etholiadol Gyfredol

Polau Piniwn

38. Mae cwestiynau yn parhau i gael eu gofyn ynghylch y diwydiant polau piniwn, yn dilyn canlyniad etholiad cyffredinol 2015, lle roedd yr amcangyfrif o ran cryfder y Ceidwadwyr o'i gymharu â Llafur llawer yn rhy isel. Er hyn, mae'n bwysig nodi bod y polau piniwn, dros gyfnod hir, wedi rhoi syniadau eithaf cywir i bobl o ran y pleidiau eraill: cryfder UKIP yng Nghymru ac yn Lloegr; y cynnydd aruthrol yng nghefnogaeth yr SNP ar ôl y refferendwm yn yr Alban; dirywiad tymor hir y Democratiaid Rhyddfrydol ledled y DU; a gwelliant cymharol fach y Blaid Werdd yn Lloegr.
39. Wrth asesu'r lefelau perthynol o gefnogaeth etholiadol, hyd fis Mai 2016, mae cryn dipyn o dystiolaeth o bleidleisiau go iawn mewn etholiadau go iawn, ac, am y tro, ychydig iawn o wybodaeth ychwanegol ddefnyddiol o'r nifer cyfyngedig o bolau i fesur bwriadau pleidleisio.

Hydref 2015.

Senedd yr Alban 2011

<http://www.bbc.co.uk/news/special/election2011/overview/html/scotland.stm>

Cynulliad Cymru 2011

<http://www.bbc.co.uk/news/special/election2011/overview/html/wales.stm>

Cynulliad Gogledd Iwerddon 2011

http://www.bbc.co.uk/news/special/election2011/constituency/html/northern_ireland.stm

Awdurdod Llundain Fwyaf (Maer a Chynulliad Llundain)Mai-2012

<http://www.bbc.co.uk/news/special/vote2012/mayor/> a
<http://www.bbc.co.uk/news/special/vote2012/assembly/>

Comisiynydd Heddlu a Throseddu – Tachwedd 2012

<http://web.archive.org/web/20121213151924/http://www.bbc.co.uk/news/uk-politics-19970734>

Etholiad Ewropeaidd – 2014

<http://www.bbc.co.uk/news/events/vote2014/eu-uk-results>

Etholiad Cyffredinol – 2015

<http://www.bbc.co.uk/news/election/2015/results>